# telerau ac amodau

Mae Twristiaeth Gogledd Cymru yn cadw'r hawl i wrthod, newid, hepgor neu ymdrin rywfodd arall â phob hysbyseb a gyflwynir yn ôl ei ddisgresiwn ei hun. Mae'n rhaid i bob hysbyseb gydymffurfio â'r Cod Arferion Hysbysebu Prydeinig ac ni ddylent fynd yn groes i'r Ddeddf Disgrifiadau Masnachol mewn unrhyw ffordd.

Bydd yr hysbysebwr yn digolledu Twristiaeth Gogledd Cymru, ac asiantau sy'n gweithredu ar ei ran, am unrhyw ddifrod, golledion neu dreuliau o ba fath bynnag, sy'n digwydd o ganlyniad uniongyrchol neu anuniongyrchol i gyhoeddiad yr hysbysebwr.

Ni fydd Twristiaeth Gogledd Cymru, nac asiantau sy'n gweithredu ar ei ran, yn atebol am unrhyw golledion sy'n digwydd o ganlyniad i gamgymeriad, cyhoeddiad hwyr neu fethiant i arddangos hysbyseb am ba reswm bynnag.

Ni fydd Twristiaeth Gogledd Cymru yn atebol am unrhyw hawliad o unrhyw fath mewn perthynas â deddfwriaeth gysylltiedig â Chyfarwyddeb Teithio Pecyn y Gymuned Ewropeaidd. Mae Twristiaeth Gogledd Cymru yn arddangos hysbysebion gyda phob ewyllys da ond ni all gymryd unrhyw gyfrifoldeb dros drefnwyr na manwerthwyr gwyliau pecyn unigol.

Y sawl sy'n hysbysebu ar y we sydd yn y pen draw yn gyfrifol am edrych ar y wefan i sicrhau cywirdeb ei hysbysebion.

Yr hysbysebwr fydd yn atebol am unrhyw gostau a gyfyd o ganlyniad i newid gwybodaeth a gafwyd ganddynt yn ogystal ag am gywiriadau'r awduron.

Bydd yn rhaid cyflwyno pob hawliad cysylltiedig â chamgymeriadau, hepgor gwybodaeth neu atgynhyrchu gwallus i Dwristiaeth Gogledd Cymru yn ysgrifenedig o fewn 30 diwrnod o'r dyddiad yr arddangoswyd yr wybodaeth ar y wefan am y tro cyntaf.

Erys yr atebolrwydd ariannol am arddangos yr hysbyseb hwn gyda'r hysbysebwr pe bai'r eiddo neu'r atyniad yn cael ei werthu i drydydd parti.

Mae cynnwys y Wefan ar gael i unrhyw ddefnyddiwr/ymwelydd i ddibenion cyfeiriol yn unig ac ni chaniateir ei atgynhyrchu mewn unrhyw fodd un ai yn gyfan gwbl neu'n rhannol heb yn gyntaf dderbyn caniatâd ysgrifenedig TGC, ei asiantau awdurdodedig neu ei gynrychiolwyr.

Defnyddir y wefan ar fenter personol yr ymwelydd neu'r defnyddiwr. Nid yw TGC yn gwarantu cynnwys, cywirdeb na geirwiredd unrhyw ddeunydd neu wybodaeth arall ar y Wefan nac ychwaith yn gwarantu fod y Wefan yn rhydd o wallau, namau, firysau neu unrhyw ddeunydd arall a allai ddifetha neu lygru data.

Nid yw TGC yn gwneud unrhyw warant o refeniw i'r hysbysebwr o ganlyniad i osod hysbyseb ar y we.

Nid yw disgrifiadau o, na chyfeiriadau at, gynnyrch, gwasanaethau neu gyhoeddiadau ar y Wefan yn golygu nac yn awgrymu bod TGC, ei staff na'i gontractwyr yn eu cymeradwyo nac yn eu hargymell mewn unrhyw fodd. Ni chaniateir defnyddio unrhyw gyfeiriad at unrhyw gynnyrch, broses neu wasanaeth penodol yn ôl enw masnach, marc masnachu, gwneuthurwr neu fel arall ar y Wefan i ddibenion hysbysebu neu gymeradwyo cynnyrch.

All bookings taken online through the website are automatically subject to terms and conditions as detailed.